**WARDEN CEMLYN**
**DISGRIFIAD SWYDD**

**Lleoliad:** Gwarchodfa Natur Cemlyn, Tregele, Ynys Môn (ac yn byw yn Hen Blas)

**Yn atebol i:** Uwch Reolwr Gwarchodfeydd

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

- Gwarchod y boblogaeth o fôr-wenoliaid sydd o bwys rhyngwladol yng Nghemlyn
- Gwarchod bioamrywiaeth yng Nghemlyn
- Ymgysylltu ag ymwelwyr, cymdogion a gwirfoddolwyr

## CEFNDIR

Mae Gwarchodfa Natur Cemlyn o fewn AHNE Ynys Môn ac yn safle o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod am ei boblogaeth fawr o fôr-wenoliaid sy'n cynnwys 3 rhywogaeth o fôr-wenoliaid yn magu, ac weithiau 4. Am y rheswm yma, mae wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'n rhan o Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Mae hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae rhagor o wybodaeth am y warchodfa, gan gynnwys taflenni, ar gael drwy dudalen we gwarchodfeydd natur yr Ymddiriedolaeth Natur. Mae gan y wardeniaid fynediad at wybodaeth fanwl am y warchodfa a'i rheolaeth.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

Dyma **brif ddyletswyddau'r** swyddi (mae o leiaf ddau warden yn cael eu cyflogi):

- Casglu data adaregol manwl am bob rhywogaeth o fôr-wennol.
- Casglu data adaregol am rywogaethau eraill o adar.
- Casglu data am rywogaethau eraill (glöynnod byw, ymlusgiaid, amffibiaid) a chydlynu gwaith arolygu arall.
- Ymgymryd â rheoli a / neu drefnu rheolaeth ar ysglyfaethwyr yn ôl yr angen.
- Cysylltu ag ymwelwyr a'u rheoli. Mae hon yn elfen bwysig o'r swydd ac mae'n cynnwys cynnal teithiau cerdded tywys, siarad ag ymwelwyr (yn unigol ac mewn grwpiau) a hyrwyddo'r Ymddiriedolaeth Natur fel sefydliad aelodaeth.
- Mae angen gweithgareddau cyfathrebu a / neu godi ymwybyddiaeth eraill gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, cyfweliadau a rhoi cyflwyniadau i grwpiau.

### Cymorth Gwirfoddolwyr

Mae wardeniaid gwirfoddol yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth ar ddyddiau i ffwrdd y warden, ar benwythnosau ac fel help ychwanegol. Bydd angen i'r Wardeniaid gysylltu'n uniongyrchol â'r gwirfoddolwyr i sicrhau gwarchodaeth effeithlon ac effeithiol i'r warchodfa.

### Adroddiad Terfynol

Cyflwynir data ar yr uchod mewn fformat y cytunwyd arno gyda'r Uwch Reolwr Gwarchodfeydd ar ddiwedd y tymor. Mae angen adroddiadau misol hefyd.

**GWYBODAETH ARALL**

Mae llety ar gael i ddau warden (gwybodaeth isod). Mae dŵr yn rhedeg a thrydan yn cael eu darparu a gwres hefyd. Darperir llety, nwy a ffynonellau pŵer eraill am ddim. Byddwch yn rhannu cyfleusterau cawod a thoiled gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Disgwylir i'r wardeniaid gadw'r llety mewn cyflwr glân a thaclus.

**Oriau Gwaith**

Dylai'r wardeniaid sicrhau bod y boblogaeth yn cael ei diogelu drwy gydol cyfnod y contract. Bydd yr oriau gwaith yn cydymffurfio â Rheoliadau Amser Gweithio 1998. Bydd yr wythnos waith yn 48 awr oni bai y cytunir fel arall. Byddwch yn cael un cyfnod o 9.00 am i 6.00 pm i ffwrdd bob wythnos (nid penwythnosau). Bydd taflenni amser manwl yn cael eu cadw.

Bydd y contract yn rhedeg o Ebrill 2il 2026 i Awst 8fed 2026

**Gofynion Cyfreithiol**

Gan ei bod yn angenrheidiol cael trwyddedau ar gyfer ein gwaith yng Nghemlyn, byddwn yn gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddatgelu unrhyw euogfarnau o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bywyd gwyllt ac efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth Natur yn gofyn hefyd am archwiliad o dan Wasanaeth Datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn unol â'i Datganiad Polisi ar gyfer Recriwtio Cyn-droseddwyr.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill. Dylech felly fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith amgylcheddol gyfeillgar, gosod a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'allu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

**MANYLEB Y PERSON**

Byddwch o gefndir ecolegol o fewn y sector preifat, cyhoeddus neu elusennol. Bydd gennych ddull gwyddonol o weithio wedi'i seilio ar brofiad ymarferol ac academaidd cadarn. Byddem yn disgwyl dealltwriaeth o adareg a'ch bod yn gyfforddus gydag adnabod ystod eang o adar Prydeinig. Byddwch yn gyfathrebwr gwych a dymunol sy'n gallu gweithio gyda llawer o bobl wahanol ar draws amrywiaeth hyfryd o ddaearyddiaeth, datblygiad busnes a gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth Natur.

Rydych chi'n mwynhau gweithio yn yr awyr agored, cyfarfod pobl a datrys problemau.

*Rydyn ni'n gweld gwerth mewn angerdd, parch, ymddiriedaeth, integriti, ymgyrchu pragmatig a chryfder mewn amrywiaeth. Er ein bod ni'n angerddol am hyrwyddo ein hamcanion, nid ydym yn feirniadol ac rydyn ni'n gynhwysol. Rydyn ni'n annog ceisiadau yn arbennig gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein sector, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol a phobl ag anableddau. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu mudiad sy'n cydnabod ac wir yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a hunaniaethau unigol.*

*Rydyn ni'n cymryd ein cyfrifoldebau Diogelu o ddifrif. Cliciwch yma i ddarllen ein datganiad ymrwymiad. Efallai y bydd angen archwiliad gan y DBS ar gyfer y rôl yma.*

| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Cyfathrebwr da a dymunol | ✓ | |
| Aelod da o dîm | ✓ | |
| Da am ddatrys problemau | ✓ | |
| Bod wedi cael pigiadau tetanws cyfredol | ✓ | |
| **Cymwyseddau Allweddol** | | |
| Ymrwymiad a brwdfrydedd dros hyrwyddo cadwraeth natur yng Nghymru | ✓ | |
| Y gallu i weithio mewn lleoliad ynysig | ✓ | |
| Blaengaredd | ✓ | |
| Y gallu i amsugno gwybodaeth gymhleth yn gyflym, a'i chyfathrebu i gynulleidfa heb fod yn arbenigwyr mewn ffordd gryno a diddorol | ✓ | |
| **Profiad** | | |
| Bod yn warden ar adar môr neu fywyd gwyllt arall neu eu monitro | ✓ | |
| Gwybodaeth eang am fywyd gwyllt Prydain / Cymru a phrofiad eang ohono | | ✓ |
| Rheoli ysglyfaethwyr | | ✓ |
| Ysgrifennu adroddiadau bywyd gwyllt | ✓ | |
| Gweithio gyda gwirfoddolwyr | | ✓ |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | |
| Adnabod adar, yn enwedig adar môr a rhywogaethau arfordirol | ✓ | |
| Gwybodaeth eang am fywyd gwyllt (gan gynnwys glöynnod byw, ymlusgiaid, planhigion) | | ✓ |
| Gwybodaeth weithredol am Iechyd a Diogelwch a'u defnydd yn y rôl hon | ✓ | |
| Sgiliau TG cadarn | ✓ | |
| Dealltwriaeth o Ddiogelu mewn cyd-destun gwaith | | ✓ |
| Gallu i ymchwilio | ✓ | |
| Sgiliau siarad cyhoeddus / cyflwyno da | ✓ | |
| Yr Iaith Gymraeg | | ✓ |
| Nofio | ✓ | |

## WARDENIAID MÔR-WENOLIAID CEMLYN:

## RHESTRAU OFFER, ATEGOLION A DILLAD

Mae’r canlynol yn cael ei ddarparu fel cefndir ar gyfer y trefniadau domestig yng Nghemlyn.

Mae'r wardeniaid wedi'u lleoli yn Hen Blas (LL67 0DY; What3words - dizziness.bungalows.horseshoe), ffermdy o'r 16eg ganrif wedi'i adfer sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn edrych dros y warchodfa. Mae mewn lleoliad ynysig ond gydag un fferm gyfagos ac eraill gerllaw. Mae'r pentref agosaf (Tregele) tua 2 filltir i ffwrdd ac mae ffôn cyhoeddus yno. Mae'r siopau agosaf yng Nghemaes tua 5 milltir i ffwrdd. Mae canolfannau siopa mwy wedi'u lleoli yn y Fali (10 milltir) a Chaergybi (15 milltir); mae'r olaf yn cynnwys sawl archfarchnad. Mae bysiau'n rhedeg o Dregele i bob un o'r llefydd yma.

Mae'r llety’n cynnwys dwy ystafell wely fach ac ardal cegin sy’n cael ei rhannu. Mae adeilad cawod / toiled wedi'i leoli ar draws buarth bychan ac mae’n cael ei rannu gyda staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fydd yn defnyddio'r adeilad o dro i dro. Mae ystafell swyddfa ar gael i'w rhannu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae'r rhestrau isod yn nodi'r offer ac ati y bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei gyflenwi a'r hyn y dylai'r wardeniaid ddod gyda nhw.

| Rydyn ni’n darparu’r canlynol | Rhaid i chi ddod â’r canlynol |
|---|---|
| Hen Blas: trydan, dŵr, popty, oergell, dodrefn, gwely, gwresogydd trydan, offer diogelwch tân | Chi'ch hun, yn frwdfrydig ac yn ymroddedig |
| Canllawiau iechyd a diogelwch | Synnwyr cyffredin |
| Tegell, cyllyll a ffyrc, cwpanau, platiau, potiau a sosbenni ac ati. | Sach cysgu, gobennydd, blancedi cynnes ac ati. |
| Eich rholyn papur toiled cyntaf | Deunyddiau ymolchi gan gynnwys tywel |
| Crys chwys warden yr YN a dillad brand eraill | Dillad awyr agored ar gyfer tywydd gwyntog, gwlyb, oer a heulog, gan gynnwys het gynnes, het haul, menig, esgidiau, welingtyns. Eli i warchod rhag yr haul (gan gynnwys y gwefusau) |
| Canllawiau ar beth i'w wneud a sut i'w wneud | Ymrwymiad |
| Canllawiau byd natur amrywiol a gwybodaeth arall am y warchodfa (bydd rhestr lawn yn cael ei darparu) | Eich hoff ganllawiau a llyfrau darllen |
| Rhywfaint o offer optegol ac offer arolygu arall (bydd rhestr lawn yn cael ei darparu) | Eich hoff sbienddrych neu 'sgop' os oes gennych chi un |

| | |
|---|---|
| Ffôn (symudol neu fel arall) ar gyfer galwadau gwaith | Ffôn symudol, os oes gennych chi un, ar gyfer galwadau personol |
| Bisgedi wrth ymweld (weithiau) | Paned (bob amser) |
| | Bwyd |
| Gliniadur ac argraffydd | Cludiant, nid yn hanfodol, ond mae beic yn ddefnyddiol ar gyfer mynd o gwmpas y warchodfa; car ar gyfer mynd ymhellach i ffwrdd. Mae lle parcio ar gael i'r ddau |